# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 11/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

#### Addysg

**C12 Nerys Evans:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg yn y canolbarth a'r gorllewin? OAQ(3)2834(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr awdurdodau lleol yn y canolbarth a'r gorllewin sy'n gyfrifol am ddarparu ac adolygu'r addysg yn yr ysgolion yn yr ardal honno. Yr ydym yn parhau i roi arian a chymorth sylweddol i'r awdurdodau lleol er mwyn gwneud hyn yn bosibl.

#### Gwasanaethau Cyhoeddus

**C13 Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisïau ar gyfer cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)2843(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd y cyn-Weinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus bapur polisi a oedd yn amlinellu'r cyfnod nesaf o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach', ar 8 Rhagfyr 2009. Cynhaliwyd yr uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus gyntaf ym mis Chwefror, sef ymrwymiad a nodwyd yn y papur polisi.

#### GIG

**C14 Andrew RT Davies:** Pa bryd y bydd y Prif Weinidog yn cwrdd nesaf â chyd-Weinidogion i drafod codi safon gwasanaethau'r GIG? OAQ(3)2838(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella safon gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn ganolog i raglen Lywodraeth Cymru'n Un, ac mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chyd-Weinidogion yn adolygu'r cynnydd yn rheolaidd.

#### Clefyd Coeliac

**C15 Dai Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiagnosio a rheoli'r clefyd coeliac? OAQ(3)2839(FM)

**Y Prif Weinidog**: Mae diagnosio a rheoli'r clefyd seliag yn fater i'r byrddau iechyd lleol yn unol â chanllawiau clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar gydnabod ac asesu'r clefyd seliag a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009.